**ATODIAD 9**

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.

2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd ganlynol o weithio y mae'r Cyngor yn eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

   - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2025/26 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
   - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb ar gyfer Aelodau wedi hwyluso eu dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
   - Cymryd agwedd integredig – Mae polisïau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni, wedi'u hystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
   - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
   - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.

3. Prif gasgliadau am gyllideb 2025/26 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:

   - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
   - Cydnerth - Positif (agwedd ddarbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
   - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
   - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
   - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
   - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)

- Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o’r gyfundrefn arbedion corfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pan gymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle’n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol. Mae cynlluniau arbed a thoriadau newydd sy’n cael eu cyflwyno yn y gyllideb yma yn sicrhau fod modd gosod cyllideb gytbwys sy’n amddiffyn adnoddau i'r dyfodol.

5. Yn gyffredinol, wedi’i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a’r Amcanion Llesiant, mae’r gyllideb yma’n cefnogi’r Cyngor i wireddu amcanion strategol.